# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2017

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)

**Yr Awdurdod Addysg**

Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun Mummery (Is-Gadeirydd), Bryan Owen

**Yr Enwadau Crefyddol**

Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)
Mrs Einir Wyn Morris (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)
Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig)

**Cynrychiolwyr Athrawon**

Mrs Helen Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)

**WRTH LAW:** Mr D Gareth Jones (Swyddog Addysg Cynradd)(Clerc i'r CYSAG)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones)
Mrs Catherine Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)
Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig)
Mrs Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her GwE)
Mr Adam Rhys Williams (Pennaeth, Ysgol Uwchradd Caergybi)
Ms Nicola Williams (Ysgol Llanfawr)
Mr Joe Morino (Gobaith Môn)(ar gyfer eitem 5 yn unig)

---

Croesawodd y Swyddog Addysg Cynradd (Clerc i'r CYSAG) aelodau CYSAG a'r aelodau newydd, y Cynghorydd Bryan Owen a Mrs Einir Wyn Morris, i'r cyfarfod.

**1. CADEIRYDD**

Ail-etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd y CYSAG.

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn Is-Gadeirydd y CYSAG.

**3. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Dylan Rees ddiddordeb personol, gan ei fod yn wirfoddolwr gyda Gobaith Môn.

**4. COFNODION - 14 CHWEFROR 2017**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**5. CYFLWYNIADAU**

**Ysgol Uwchradd Caergybi**

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Joe Morino o Gobaith Môn ar waith y sefydliad gydag ysgolion uwchradd ar Ynys Môn, gan gyfeirio'n benodol at Ysgol Uwchradd Caergybi.

Cyflwynodd Mr Morino drosolwg o Gobaith Môn, elusen gofrestredig a chorff Cristnogol sydd â bwrdd o ymddiriedolwyr rhyng-enwadol. Mae'r sefydliad yn gweithio'n bennaf gyda phobl ifanc, gan ddod â Christnogion o'r holl enwadau at ei gilydd, ac yn annog a datblygu gwaith ieuenctid gydag ysgolion, eglwysi a chymunedau ar yr Ynys.

Adroddodd Mr Morino fod Gobaith Môn, yn ei waith ag Ysgol Uwchradd Caergybi, wedi edrych ar yr addoli ar y cyd yn ei gyfanrwydd, mewn gwasanaethau a dosbarthiadau cofrestru. Rhoddodd grynodeb o'r trefniadau addoli ar y cyd yn yr ysgol, a chyfeiriodd at y model a fabwysiadwyd er mwyn hwyluso sesiynau addoli ar y cyd. Nodwyd fod Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol i gyflwyno straeon aml-gyfrwng, dramâu a chlipiau. Rhennir straeon Beiblaidd fel rhan o wasanaethau sy'n seiliedig ar bwnc er mwyn ysbrydoli pobl ifanc i edrych ar gwestiynau mawr bywyd.

Adroddodd Mr Adam Rhys Williams, Pennaeth Ysgol Uwchradd Caergybi, fod y gwaith a wneir gan Gobaith Môn yn gynnil, yn ennyn brwdfrydedd ac yn berthnasol. Ymgysylltir â disgyblion yn y gwasanaeth boreol, ac maent yn ymwneud yn dda â'r tîm. Mae Gobaith Môn yn darparu brecwast i ddisgyblion yn yr ysgol; yn gweithio ar y newyddlen ysgol ac yn darparu cefnogaeth ar faterion bugeiliol mewn amgylchedd croesawgar a diogel.

**Ysgol Llanfawr, Caergybi**

Cyflwynodd Ms Nicola Williams, athrawes yn Ysgol Llanfawr, bortffolio o waith a luniwyd gan ddisgyblion yr ysgol i aelodau'r CYSAG. Rhoddodd gyflwyniad ar y broses a fabwysiadwyd gan yr ysgol ar gyfer addoli ar y cyd, sy'n cynnwys cynnal gwasanaeth dyddiol ar wahân ar gyfer yr adran babanod a'r adran iau. Nodwyd fod yr ysgol yn cynnal sesiynau addoli ar y cyd er mwyn astudio'r Hen Destament a'r Testament Newydd; ac edrychir ar faterion moesol sy'n

gysylltiedig â storïau a negeseuon Beiblaidd. Mae plant yr ysgol yn gyfrifol am un o'r sesiynau addoli ar y cyd.

Dywedodd Ms Williams fod Ysgol Llanfawr yn cymryd rhan yn y rhaglen 'Llyfr Agored', sydd wedi cael ei symleiddio ar gyfer y babanod a'i addasu ar gyfer disgyblion yr adran iau. Mae Gobaith Môn wedi cynnal sesiwn addoli ar y cyd anffurfiol yn yr ysgol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y ddwy ysgol am eu cyflwyniadau a'u gwaith caled.

**6. ADRODDIADAU ESTYN - GWANWYN 2017**

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan CYSAG, wybodaeth o adroddiadau Arolygiadau Estyn a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Niwbwrch ac Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

**Ysgol Gynradd Niwbwrch**

Adroddodd y Swyddog Addysg Cynradd nad yw Estyn wedi gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer gwella yn Ysgol Gynradd Niwbwrch. Mae'r ysgol yn cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol. Nodwyd fod darpariaeth briodol ar gyfer sesiynau addoli ar y cyd yn yr ysgol a bod y cwricwlwm yn cefnogi datblygiad ysbrydol yn effeithiol.

**Ysgol David Hughes** (Fframwaith Newydd)

Adroddodd y Swyddog Addysg Cynradd y bydd Estyn, o fis Medi 2017, yn gweithredu fframwaith arolygu ysgolion newydd, fydd yn cynnwys pum cwestiwn yn hytrach na'r tri presennol. Ar hyn o bryd, mae Estyn yn treialu'r fframwaith newydd ac mae Ysgol David Hughes ac Ysgol Llanfawr wedi cael eu harolygu'n barod fel rhan o'r cynllun peilot. Nodwyd y bydd Estyn yn rhoi tair wythnos o rybudd cyn cynnal arolygiad yn y dyfodol, felly mae'n rhaid i ysgolion fod yn barod am arolygiad.

Mae cynlluniau penodol yn eu lle ar gyfer datblygiad ysbrydol mewn Addysg Grefyddol yn Ysgol David Hughes, gyda phwyslais penodol ar 'lais y plentyn'. Rhoddir cyfle i ddisgyblion ddylanwadu ar gynnwys y rhaglen er mwyn ymateb i'w hanghenion. Yn ddiweddar cynhaliwyd sesiynau yn yr ysgol i roi sylw i ragfarn hiliol cyn i ffoaduriaid o Syria ddod i fyw i'r ardal.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Her GwE at arfer dda mewn llythrennedd a arsylwyd mewn gwersi Addysg Grefyddol yn yr ysgol, fel y nodir yn Adroddiad Estyn -
Llwydda'r ysgol i gynnig profiadau gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys cyfleoedd buddiol i ysgrifennu'n estynedig mewn llawer o bynciau. Enghraifft symbylus o hwn yw'r cyfle mewn gwersi addysg grefyddol i ddisgyblion ddatblygu eu llythrennedd ochr yn ochr â datblygu empathi, drwy ddychmygu bywyd mewn diwylliannau a chrefyddau gwahanol.

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg Cynradd i ofyn i Ysgol David Hughes rannu eu harfer dda gyda'r CYSAG.**
**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

## 7. HUNAN-ARFARNIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y CYSAG, adroddiadau hunan-arfarnu gan Ysgol Gynradd Kingsland, Caergybi; Ysgol Esceifiog, Gaerwen; Ysgol Llanfairpwll, ac Ysgol Santes Fair, Caergybi.

Nododd yr Ymgynghorydd Her GwE fod y pedair ysgol wedi barnu fod safonau yn dda yn gyffredinol o ran perfformiad mewn Addysg Grefyddol, ond amlygodd yr angen i nodi'r prif negeseuon o'r adroddiadau hunan-arfarnu yn glir, ac i weithredu ar faterion sydd angen eu gwella.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:-

- Efallai y byddai disgyblion Sikh a Mwslimaidd yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan, ac efallai y gallai athrawon ystyried gweithio gyda theuluoedd, er mwyn cynnwys eu credoau crefyddol yn y gwersi, fel eu bod yn teimlo'n rhan o'r ysgol.
- Dylid datblygu geirfa a'r gallu i gwestiynau, gan roi cyfleoedd i ddisgyblion fynegi barn ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Pwysigrwydd datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywyd rhywun sydd yn grediniwr.
- CA2 – parhau i ddatblygu tasgau heriol ac estynedig ar gyfer y disgyblion mwy galluog ym mhob dosbarth.

Nododd yr Athro Euros Wyn Jones nad yw dimensiwn Cymreig bywyd yr ysgol wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol yn Ysgol Santes Fair, gyda'r prif ffocws ar Dewi Sant, a defnydd cyfyngedig yn unig a wneir o'r iaith Gymraeg wrth addoli. Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE y dylai profiadau Addysg Grefyddol yn ysgolion Ynys Môn ganolbwyntio ar safbwynt lleol, Cymreig a byd-eang.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiadau hunan-arfarnu ac i nodi eu cynnwys. Diolchwyd i'r ysgolion dan sylw am ddarparu'r adroddiadau i'r CYSAG.**

## 8. DIWEDDARIAD GAN YR YMGYNGHORYDD HER GWE

### 1. Aelodau Newydd CYSAG

Cafwyd crynodeb o rôl aelodau CYSAG gan yr Ymgynghorydd Her GwE, a threfnodd fod yr aelodau newydd yn derbyn gwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau'r CYSAG. Dywedodd wrth yr aelodau fod y cwricwlwm a chanllawiau Addysg Grefyddol yn cael eu penderfynu'n lleol, a bod pob awdurdod lleol a CYSAG yng Nghymru wedi mabwysiadu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol.

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg Cynradd i gylchredeg y dogfennau canlynol i aelodau newydd CYSAG:**

**a) Rôl Aelodau CYSAG;**
**b) Maes Llafur Cytûn Ynys Môn a Gwynedd;**
**c) Dyfodol Llwyddiannus**

**2. Cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol Newydd**

Cafwyd diweddariad gan Mrs Heledd Hearn, Ysgol Uwchradd Bodedern, ar y cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol (AC) newydd. Adroddodd fod athrawon AG wedi rhannu adnoddau ar gyfer y cwrs, sy'n cael ei gyflwyno ym mis Medi, a byddant ar gael ar wefan GwE.

Codwyd pryderon na fyddai pob ysgol yn dyrannu'r un faint o amser ar gyfer cyflwyno'r cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd. Codwyd pryderon hefyd nad yw rhai adnoddau masnachol wedi cael eu cyfieithu.

Diolchodd y CYSAG i'r athrawon am eu mewnbwn ac am gydweithio â Gwynedd:-

- *"Llawer o ddiolch i'r penaethiaid am eu cefnogaeth mewn perthynas â'r TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd drwy roi amser i athrawon gyfarfod fel HYB ac i fynychu cyrsiau perthnasol;*
- *Yn deall fod llawer iawn o waith paratoadol wedi ei wneud yn barod a'i rannu ag athrawon yn ystod y cyfarfod ar 12 Mehefin yng Nghaernarfon;*
- *Canmol yr athrawon am eu parodrwydd i gydweithio, cefnogi ei gilydd a rhannu adnoddau;*
- *Gobeithio y bydd athrawon yn derbyn amser digonol i addysgu'r cwrs newydd."*

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg Cynradd, ar ran y CYSAG, i:-**

- **ysgrifennu at Benaethiaid yn Ynys Môn,**

  **a) yn diolch iddynt am gefnogi eu hathrawon AG, fel eu bod yn gallu mynychu cyrsiau hyfforddiant a chyfarfodydd er mwyn eu paratoi ar gyfer y cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd;**
  **b) llongyfarch eu hathrawon AG am eu gwaith caled, a,**
  **c) gofyn fod amser yn cael ei ddyrannu i'r Adran AG, yn unol â chanllawiau CBAC, er mwyn addysgu'r cwrs AC newydd.**

- **Ysgrifennu at Ddeon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn mynegi pryderon y CYSAG fod cyrsiau diwinyddiaeth i israddedigion ac athrawon arfaethedig yn gostwng.**

- **Rhannu cofnodion y cyfarfod hwn gyda'r Pennaeth Dysgu.**

## 3. Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm Newydd

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE ar y canlynol:-

- fod rhaid i'r cwricwlwm newydd ymateb i'r 4 pwrpas addysg canlynol y cyfeirir atynt yn Adroddiad Donaldson – sef y bydd pob un o'n plant a'n pobl ifanc yn:-

    - ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
    - gyfranwyr mentrus, creadigol
    - ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n fodolon gweithredu
    - unigolion iach a hyderus

- Mae AG yn rhan o'r maes dysgu a phrofiad Dyniaethau. Mae'n rhaid i'r maes AG gysylltu â'r 5 maes dysgu a phrofiad arall, a disgwylir iddo gyfrannu at iechyd a llesiant.
- Mae grŵp o ysgolion arloesi yn gyfrifol am ddatblygu pob maes dysgu a phrofiad. Hyd yma, mae'r ysgolion wedi ymchwilio i fodelau cwricwlaidd mewn gwledydd eraill, ac wedi derbyn arweiniad gan arbenigwyr allanol. Mae pob grŵp wedi amlinellu hyd a lled y meysydd dysgu a phrofiad, ac ar hyn o bryd yn ystyried gwerth nodi'r 'syniadau mawr' mewn AG.

- Nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma ynglŷn â chynnwys y cwricwlwm newydd.
- Nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma ynglŷn ag asesiad.
- Bydd y sgiliau rhyng-gwricwlaidd yn parhau: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE ei bod wedi mynychu cyfarfod o'r grŵp Dyniaethau fel arsyllwr a chynrychiolydd y CCYSAGauC/PYCAG. Adroddodd ymhellach fod Manon Jones, sydd yn hwyluso'r grŵp Dyniaethau, wedi derbyn fersiwn drafft o'r ddogfen 'Beth yw AG Da?' a ddatblygwyd gan aelodau PYCAG, ond nad yw'r ddogfen wedi ei dosbarthu i'r athrawon yn yr ysgolion arloesi eto.

Cododd Mr Christopher Thomas bryder na fydd Diwinyddiaeth yn cael ei gynnwys o dan yr ambarél Dyniaethau os bydd Astudiaethau Cymdeithasol yn cymryd lle AG yn araf bach. Mewn perthynas ag AG a'r cwricwlwm newydd, ymatebodd yr Ymgynghorydd Her GwE gan ddweud fod angen defnyddio dull newydd er mwyn sicrhau fod yr hyn a gyflwynir yn cyfoethogi ac yn berthnasol i fywydau plant a phobl ifanc.

## 4. Estyn

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her Gwe fod arolygiadau Estyn wedi nodi fod safonau a darpariaeth AG yn wan mewn rhai ysgolion. Rhoddwyd 'aide

memoire’, a baratowyd gan yr Ymgynghorydd Her, i aelodau’r CYSAG yn nodi 10 ffaith allweddol am AG mewn ysgolion cynradd. Rhoddwyd crynodeb o bob un o’r pwyntiau allweddol i Aelodau’r CYSAG.

Nodwyd y bydd Estyn yn cynnal arolygiadau thematig ar ‘Addysg Grefyddol CA2 a CA3’ yn ystod 2017-18. Maent yn debygol o ymweld â chroestoriad o 20 o ysgolion ar draws Cymru.

**5. Addoli ar y Cyd**

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod dau ddisgybl o Ysgol Glan Taf wedi sefydlu deiseb ar wefan Llywodraeth Cymru yn galw am ddileu addoli ar y cyd fel gofyn statudol mewn ysgolion. Dechreuwyd deiseb arall ar y wefan o blaid cynnal yr elfen Gristnogol mewn addoli ar y cyd, ond gan gydnabod yr angen i barchu crefyddau eraill o fewn cymuned yr ysgol.

Gwahoddwyd aelodau’r CYSAG i arwyddo’r ddeiseb drwy ddilyn dolen i’r wefan.

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg Cynradd i anfon y ddolen i Aelodau’r CYSAG.**

**6. E-Fwletin Addysg Grefyddol CA3**

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod yr e-gylchgronau cyfrwng Cymraeg canlynol ar gael ar wefan Hwb:-

a) Rhif 1: Rhoi Organau
b) Rhif 2: Ffoaduriaid
c) Rhif 3: Rhyfel a Heddwch

**Nododd aelodau’r CYSAG gynnwys yr uchod.**

**9. CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR**

Cyflwynodd y Swyddog Addysg Cynradd Gyfansoddiad CYSAG Ynys Môn a Chylchlythyr rhif 10/94 i’r CYSAG er gwybodaeth.

Gofynnwyd a ddylai’r Ymgynghorydd Her GwE fod â hawl pleidleisio pan fydd yn cynrychioli CYSAG Ynys Môn yng nghyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru **Cytunodd y Pwyllgor y dylai Miss Bethan James bleidleisio ar ran CYSAG Ynys Môn yn y cyfarfodydd.**

**Cytunodd y CYSAG i nodi Cyfansoddiad y Pwyllgor er gwybodaeth.**

**10. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

**Nododd y Pwyllgor gofnodion drafft y Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2017.**

**11. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2017/18**

**Nododd y Pwyllgor ddyddiadau cyfarfodydd y CYSAG sef 10 Hydref 2017 a 20 Chwefror 2018 am 2.00 pm.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**